



## Glan yr afon, coedlan a golygfeydd eang

**Pellter:** 6.4km / 4 milltir

**Amser:** Gadewch 2 - 2.5 awr

**Parcio a chychwyn:** Y maes parcio wrth y lle chwarae neu parcwch wrth ochr y ffordd yng nghanol y pentref

**Cyf. Grid:** SJ109604, Map OS Explorer 264

**Graddfa:** Cymedrol (codi'n raddol)

**Cyfleusterau:** Drovers Arms, Rhewl

## Riverside, woodland and wide views

**Distance:** 6.4km / 4 miles

**Time:** Allow 2 - 2.5 hours

**Parking and start:** Car park by the recreation ground or roadside parking in the village centre

**Grid ref:** SJ109604, Explorer map 264

**Grade:** Moderate (gentle ascent)

**Facilities:** Drovers Arms, Rhewl



## Y Daith Gerdded

**1.** O dafarn y Drovers, trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y briffordd a dros yr hen bont garreg. Croeswch y ffordd yn syth ar ôl y bont a gyferbyn â'r bwthyn. Ewch ar y llwybr sydd ag arwyddion amlwg arno ac ar hyd y dreif y tu ôl i'r bwthyn.

Ewch ymlaen ar i fyny ar hyd y ffordd fferm a drwy'r coed. Anwybyddwch y llwybrau drwy'r coed ar y naill ochr a'r llall nes cyrraedd fforch amlwg yn y prif llwybr ag arno saethau melyn. Ewch ar y fforch ar y llaw dde a chroesi i mewn i gae. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr amlwg gan gadw ffin y cae ar eich llaw dde. Ar ben pellaf y cae, trowch i'r chwith o flaen yr ysgubor tun gan gadw'r ffens ar eich llaw dde ac ewch at y gamfa yn y gwrych o'ch blaen. Ewch yn eich blaen gan ddringo'n raddol drwy'r caeau (drwy 2 giât a thros 2 gamfa), gan gadw'r ffens ar eich llaw dde a dilyn y saethau melyn at y coed sy o'ch blaen. Cymerwch seibiant i edrych yn ôl ar Fryniau Clwyd.

Croeswch y gamfa ac ewch i'r goedlan. Ewch ymlaen gan wyro ychydig i'r chwith a cherdded drwy goedlan o gonifferau tal ar hyd llwybr

amlwg y goedwig. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr hwn wrth iddo fynd drwy'r coed a dod i dir mwyr agored. Bydd caeau ar ochr dde'r llwybr. Ewch yn syth ymlaen ar y gyffordd arwyddedig, gan gadw ymyl y cae ar eich llaw dde.

Croeswch y gamfa ac i'r caeau gan fynd yn syth ymlaen. Bydd coed yn y dyffryn ar y llaw chwith ac adeiladau fferm ar y dde. Croeswch y gamfa ar ben y cae, yn ôl i llwybr cul y goedwig sy'n rhedeg ar hyd pen y cwm coediog serth, bydd caeau ar y llaw dde.

**2.** Tueddwch i lawr i'r chwith, i lawr y grisiau ac i gyffordd y llwybrau. Trowch i'r chwith a dilyn y llwybr drwy'r coed am tua 130m wrth iddo ddisgyn yn raddol tua'r afon. Erbyn hyn mae'r llwybr yn dilyn yr afon am tua 3km yr holl ffordd i Rewl. (Anwybyddwch y ddwy bont dros yr afon).

Ar ôl tua 2km ewch drwy'r giât mochyn a dilyn y llwybr llydan rhwng y ddau fwthyn. Ewch ymlaen ar y llwybr llydan hwn wrth iddo wyro i'r dde yn ôl i lan yr afon a dal i gerdded ar hyd y llwybr wrth ochr yr afon.

Ewch yn syth yn eich blaen ar hyd y llwybr amlwg, heibio i fferm Rhyd-y-Cilgwyn lle mae'r llwybr yn



# Rhewl

troi'n ffordd darmac. Tueddchw tua'r dde dros y bont garreg ac ymlaen i'r ffordd fawr. Croeswch y ffordd ac yn ôl i'r man cychwyn.

## The Walk

1. From the Drovers Arms pub turn right and walk along the main road over the old stone bridge. Cross the road just after the bridge opposite a small cottage. Take the clearly signed path along a farm drive beside the cottage.

Continue uphill along the farm track through woodland. Ignore the woodland tracks on either side until you reach a clear fork in the main track, signed with yellow arrows. Take the right fork and cross into a field. Continue walking on the clear path along the right-hand field edge. At the far end of the field turn left in front of a corrugated barn and follow the right-hand fenceline to a stile in the hedgerow ahead. Continue ahead, gradually climbing uphill through fields, (through two gates and over 2 stiles), keeping the fenceline on your right and following the yellow arrows towards the woodland ahead. Pause to look back at the superb views of the Clwydian Range.

Cross a stile into the woodland and continue ahead, bearing slightly left, walking through tall conifer woodland along a clearly waymarked path. Continue along this path as the woodland becomes more open and the path skirts fields on the right. Continue straight ahead at a signed path junction, keeping the field edge to the right.

Cross a stile into fields and continue straight ahead, with woodland in the valley on the left and farm buildings on the right. Cross a stile at the end of the field, back onto a narrow



Siglen lwyd  
Grey Wagtail

woodland path that skirts along the top of a steeply wooded valley, with fields to the right.

2. Bear left down some steps to a path junction. Turn left and follow the woodland path for approximately 130m as it gradually descends to the river. The path now follows the river for approximately 3km all the way back to Rhewl. (Ignore the two footbridges that cross the river along the route.)

*The rocks you see here along the river gorge were laid down in a deep ocean 420 million years ago. Fossils of ancient sea creatures can occasionally be found.*

After approximately 2km go through a kissing gate and follow the track that leads between two cottages. Continue on the track as it bears right back to the riverside and continue walking along the riverside path.

Continue straight ahead along the clear track, past the farm buildings of Rhyd-y-Cilgwyn farm, where the track becomes a surfaced road. Bear right over the stone bridge and continue to the main road. Cross the road to return to your starting point.

## Lady Bagot's Drive

Roedd y Teulu Bagot yn berchnogion y stad yma yn ystod yr 19eg a'r 20fed ganrif. Roedd yr Arglwyddes Bagot yn hoff iawn o'r dyffryn hardd hwn ar lan yr afon felly fe greoedd yr Arglwydd Bagot y llwybr cerbydau hwn i'w blas, Pool Park, sy'n dair milltir i'r de. Mae tŷ a fferm Rhyd-y-Cilgwyn, lle mae nifer o hen adeiladau ffrâm pren yn dal i sefyll ymysg yr ysguboriau modern - yn rhan o stad yr Arglwydd Bagot hefyd.

*Mae'r dreif yn bwysig hefyd am ei Geoamrywiaeth. Ffurfiwyd y creigiau mewn cefnfor dwfn rhyw 420 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Gellir dod o hyd i ffosiliau creaduriaid y môr o dro i dro.*

## y Porthmyn

O'r oesoedd canol hyd yr 19 ganrif arferai'r Porthmyn gydgerdded gyda'u gyrruod enfawr o wartheg a mathau eraill o dda byw ar draws Cymru ac i farchnadoedd Lloegr. Roedd marchnad Rhuthun yn ganolbwynt nifer o ffyrdd y Porthmyn, a deithiai drwy Gogledd-ddwyrain Cymru. Cynhaliwyd marchnad wythnosol yn y dref, ond Ffair Rhuthun oedd y digwyddiad pwysig. Yn y Ffair, byddai'r porthmyn yn cyfarfod â'i gilydd gan gyrraedd y dre o'r gogledd ac o'r gorllewin.

## Lady Bagot's Drive

The wealthy Bagot family owned a large estate here in the 19th and 20th centuries. Lady Bagot loved this scenic riverside gorge so Lord Bagot laid a carriage route along the riverside up to the Bagot's mansion at Pool Park, three miles south. Rhyd-y-Cilgwyn house and farm, which still has several old timber framed outbuildings mixed with the modern barns, were also part of Lord Bagot's estate.

## Drovers

From medieval times up until the 19th century generations of Welsh drovers walked huge herds of cattle and other livestock across Wales to markets in England. The market town of Ruthin was the hub of several drove routes that threaded their way across the countryside of north-east Wales. Weekly livestock markets were held in the town but the biggest event was the annual Ruthin Fair, which was a great meeting place for drovers who would converge on the town from the north and west.



*Yn Nhafarn y Porthmyn (Drovers Arms) roedd llety dros nos a bwyd a llymaid i'r Porthmyn a'u hanifeiliaid ar eu ffordd i farchnadoedd Rhuthun. Heddiw, ceir yma fwyd cartref da bob dydd ar amser cinio a gyda'r nos. Ffon: 01978 703163*



*The 17th century Drovers Arms was originally an important overnight and refreshment stop for the drovers and their herds en route to Ruthin markets. It serves good home-cooked food every day at lunchtimes and evenings. Tel: 01978 703163*